

l:

Pob **gweithredwr rhwydwaith atebol** (fel y'i diffinnir yn erthygl 14(7) o'r Gorchymyn PRS, gweler isod) sy'n gorfod talu costau gweinyddol i Ofcom o dan erthygl 14(1) o'r Gorchymyn PRS

Atif.Moghal
Cyfarwyddwr.Cyllid.DrosDro
E-bost: Atif.Moghal@ofcom.org.uk

3.Chwefror.2025

DRWY GYHOEDDI AR WEFAN OFCOM

Annwyl weithredwr,

Cais cyffredinol blynyddol am wybodaeth ariannol y mae'n rhaid ei darparu i Ofcom dan erthygl 5(1) o'r Gorchymyn PRS

Mae'r hysbysiad hwn yn cynnwys cais am wybodaeth y mae'n rhaid ei darparu i Ofcom bob blwyddyn o dan erthygl 55 o Orchymyn Rheoleiddio Gwasanaethau Cyfradd Premiwm 2024, S.I. 2024/1046 (y "**Gorchymyn PRS**").¹

Mae'r cais hwn yn un cyffredinol ac, o'r herwydd, mae wedi'i gyfeirio at bawb a ddisgrifir isod fel '**gweithredwyr rhwydwaith dibynadwy**' y mae'r wybodaeth yn ofynnol ganddynt. Gan nad yw'n glir i Ofcom pa bobl sy'n bodloni ystyr 'gweithredwr rhwydwaith dibynadwy' o bryd i'w gilydd, mae'r cais cyffredinol hwn yn cael ei gyhoeddi ar wefan Ofcom at sylw'r bobl hynny, yn unol ag erthygl 55(7) o'r Gorchymyn PRS.

Mae'r cais cyffredinol hwn yn berthnasol ar sail reolaidd gyda'r '**flwyddyn codi tâl**'² yn dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben 31 Mawrth 2026, gyda'r wybodaeth benodedig sy'n ofynnol o dan y cais cyffredinol hwn yn cael ei ddarparu ar gyfer y '**flwyddyn galendr berthnasol**'³ mewn perthynas â'r flwyddyn codi tâl honno (hynny yw, mae'r wybodaeth benodedig ar gyfer y flwyddyn codi tâl honno yn ymwneud â'r cyfnod sy'n dechrau 1 Ionawr 2023 ac yn dod i ben 31 Rhagfyr 2023), a bydd y cais cyffredinol hwn yn parhau i fod yn berthnasol mewn blynyddoedd codi tâl dilynol nes ceir rhybudd pellach gan Ofcom.

Pobl y mae angen yr wybodaeth arnynt—gweithredwyr rhwydwaith cymwys

Fel sy'n cael ei egluro uchod, mae'r cais cyffredinol hwn yn cael ei gyfeirio at bob person sy'n bodloni ystyr '**gweithredwr rhwydwaith dibynadwy**' o dan erthygl 14(7) o'r Gorchymyn PRS, sef:

¹ <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/contents/made>. Mae rhagor o gefndir i gostau gweinyddol Ofcom o dan y Gorchymyn PRS wedi'i nodi yn Adran 12 datganiad Ofcom o'r enw '*Dyfodol rheoleiddio gwasanaethau y telir amdanynt drwy'r ffôn*', fel y'i cyhoeddwyd gan Ofcom ar 25 Hydref 2024:

<https://www.ofcom.org.uk/phones-and-broadband/bills-and-charges/the-future-regulation-of-phone-paid-services/>.

² Mae erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS yn diffinio '**blwyddyn codi tâl**' fel "... (a) y cyfnod sy'n dechrau 1 Chwefror 2025 ac yn dod i ben 31 Mawrth 2025, neu (b) unrhyw gyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill".

³ Mae erthygl 14(7) o'r Gorchymyn PRS yn diffinio '**blwyddyn galendr berthnasol**' fel "y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf mis Ionawr yn y flwyddyn dwy flynedd cyn y flwyddyn galendr y mae'r flwyddyn codi tâl dan sylw yn dechrau ynddi".

ystyr “gweithredwr rhwydwaith cymwys” yw gweithredwr rhwydwaith y mae cyfanswm ei alldaliadau mewn blwyddyn galendr berthnasol yn hafal i neu'n fwy na £10,000 heb gynnwys TAW;

(1) Ydych chi'n 'weithredwr rhwydwaith'?

Wrth ystyried a oes angen i chi ymateb i'r galw cyffredinol hwn, dylech benderfynu'n gyntaf a ydych yn bodloni'r diffiniad o 'weithredwr rhwydwaith'. Mae erthygl 9(7) o'r Gorchymyn PRS yn darparu bod 'gweithredwr rhwydwaith' yn golygu person sy'n dod o fewn erthygl 9(8) neu (9), sef:

(8) Mae person yn dod o fewn y paragraff hwn os yw'n bodloni'r canlynol—

(a) yn ddarparwr gwasanaeth cyfathrebiadau electronig a ddefnyddir i ddarparu PRS rheoledig

(b) o dan drefniadau gyda chyfryngwr neu fasnachwr, mae ganddo hawl i gadw rhai neu'r cyfan o'r taliadau a dderbyniwyd mewn cysylltiad â darparu'r PRS rheoledig neu mewn perthynas â defnyddio'r gwasanaeth cyfathrebiadau electronig at ddibenion y PRS rheoledig.

(9) Mae person yn dod o fewn y paragraff hwn os yw'n bodloni'r canlynol—

(a) yn ddarparwr rhwydwaith cyfathrebiadau electronig a ddefnyddir i ddarparu PRS rheoledig

(b) yn rhan o gytundeb gyda chyfryngwr neu fasnachwr i ddefnyddio'r rhwydwaith i ddarparu'r PRS rheoledig.

Wrth wneud hynny, byddwch yn nodi bod ymadroddion eraill a ddefnyddir at ddibenion y diffiniad 'gweithredwr rhwydwaith' yn cael eu diffinio naill ai yn y Gorchymyn PRS ei hun (fel ystyr 'PRS rheoledig') neu yn Neddf Cyfathrebiadau 2003 (fel ystyr 'rhwydwaith cyfathrebu electronig' a 'gwasanaeth cyfathrebu electronig'⁴). Dylech felly adolygu pob diffiniad o'r fath yn ofalus fel sy'n berthnasol yn eich amgylchiadau.

(2) A gawsoch chi 'alldaliadau' mewn 'blwyddyn galendr berthnasol' o £10,000 o leiaf?

I fod yn “weithredwr rhwydwaith cymwys”, mae angen i chi bennu a gawsoch alldaliadau mewn blwyddyn galendr berthnasol yn hafal i neu'n fwy na £10,000 heb gynnwys TAW. Mae erthygl 14(7) o'r Gorchymyn PRS yn darparu bod 'alldaliadau' yn golygu:

“... cyfanswm y symiau sy'n daladwy gan weithredwr rhwydwaith atebol i gyfryngwyr a masnachwyr mewn perthynas â reffeniw PRS”.

Yn y cyswllt hwnnw, mae'r ymadrodd 'refeniw PRS' yn cael ei ddiffinio ar wahân yn erthygl 14(7) fel a ganlyn:

“...y cyfanswm net a drosglwyddir i weithredwr rhwydwaith atebol gan ddarparwr cyfathrebiadau gwreiddiol [⁵] mewn perthynas â ffioedd a osodir gan y darparwr ar ddefnyddwyr ei wasanaethau cyfathrebu electronig ar gyfer darparu PRS rheoledig, ynghyd ag unrhyw gyfleusterau sydd ar gael iddynt, ac eithrio unrhyw daliadau a roddir i elusen gan y defnyddwyr hynny;”

Eich dyletswydd i ymateb i'r galw cyffredinol hwn

Os ydych chi'n bodloni'r diffiniad uchod o 'weithredwr rhwydwaith dibynadwy', mae'n rhaid i chi dalu costau gweinyddol i Ofcom o dan erthygl 14 o'r Gorchymyn PRS. Os felly, mae'n rhaid i chi hefyd ddarparu'r wybodaeth y gofynnir amdani (gweler isod) o dan y cais cyffredinol hwn.

⁴ Gweler yn benodol <https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/32>.

⁵ Mae erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS yn diffinio 'darparwr cyfathrebu gwreiddiol' fel rhywun sy'n darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig i ddefnyddwyr.

Pam y bydd Ofcom yn defnyddio'r wybodaeth y gofynnir amdani

Rydym yn gofyn am yr wybodaeth yn y modd a'r ffurf a nodir isod er mwyn canfod neu ddilysu'r costau gweinyddol sy'n daladwy gan weithredwr rhwydwaith atebol o dan erthygl 14 o'r Gorchymyn PRS. Mae gennym y pŵer yn benodol i fynnu'r wybodaeth hon o dan erthygl 55(2)(b) o'r Gorchymyn PRS.

O ran hynny, dylid nodi bod erthygl 14(1) y Gorchymyn PRS yn gosod dyletswydd ar weithredwr rhwydwaith atebol i dalu i Ofcom ei gyfran o'n costau gweinyddol am ein gwariant perthnasol mewn cysylltiad â'r rheoleiddio a orfodir gan y Gorchymyn PRS ar gyfer pob blwyddyn codi tâl. Mae'r fformiwla ar gyfer cyfrifo ein costau gweinyddol wedi'i nodi yn erthygl 14(2). Mae'n darparu:

$$AC^6 = [(DAE^7 + O^8) \div TOP^9] \times NOS^{10}$$

Darparu gwybodaeth benodol

Mae'n rhaid i chi ddarparu'r wybodaeth a bennir yn **Atodiad A** i'r cais cyffredinol hwn i Ofcom yn y modd a'r ffurf a nodir yn yr Atodiad hwnnw. Rhaid i'r wybodaeth y gofynnir amdani gyrraedd Ofcom **erbyn y dyddiadau cau a nodir yn Rhan D o Atodiad A**. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau ynghylch y cais cyffredinol hwn i'n Cofrestrfa Gwybodaeth drwy anfon e-bost i information.registry@ofcom.org.uk.

Cyfrinachedd

Yn eich ymateb i'r cais cyffredinol hwn, nodwch yn glir mewn atodiad ar wahân gyda'r marc 'gwybodaeth gyfrinachol' unrhyw ddogfen neu wybodaeth rydych chi'n ei hystyried yn gyfrinachol. Dylech gynnwys esboniad ysgrifenedig ynghylch pam y dylid ei thrin felly. Bydd Ofcom yn ystyried unrhyw sylwadau a wneuch wrth benderfynu pa ddogfennau a/neu wybodaeth y mae'n ei hystyried yn gyfrinachol. Nid yw honiadau cyffredinol o gyfrinachedd yn ddefnyddiol fel arfer. Fodd bynnag, rydym yn gwerthfawrogi bod yr wybodaeth y gofynnir amdani yn y cais cyffredinol hwn o natur ariannol ac, o'r herwydd, rydym yn disgwyl y byddwch yn gofyn i'ch ymateb cyfan gael ei drin yn gyfrinachol.

Data personol

Bydd Ofcom yn prosesu unrhyw ddata personol a ddarperir mewn ymateb i'r cais cyffredinol hwn yn unol â Datganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom.¹¹ Rydym yn credu y bydd unrhyw ddata personol rydych chi'n ei brosesu wrth ymateb i'r cais cyffredinol hwn yn cael ei brosesu gennych chi ar eich pen eich hun, fel rheolydd data, yn hytrach na fel prosesydd data ar ran Ofcom. Byddwch yn gyfrifol am gydymffurfio â'ch rhwymedigaethau eich hun o dan ddeddfwriaeth diogelu data berthnasol. Efallai yr hoffech hefyd roi gwybod i unrhyw weithwyr y byddwch yn darparu eu data personol

⁶ Mae "AC" yn golygu swm y ffi weinyddol sy'n daladwy gan y gweithredwr rhwydwaith atebol dan sylw.

⁷ Mae "DAE" yn golygu cyfanswm y gwariant perthnasol yr amcangyfrifir gan Ofcom a fydd yn cael ei ysgwyddo yn y flwyddyn codi tâl dan sylw, ynghyd ag unrhyw addasiadau i ddelio â diffyg neu warged a nodir yn erthygl 14(6).

⁸ Mae "O" yn golygu dosraniad rhesymol o gostau gorbenion amcangyfrifedig Ofcom y gellir eu priodoli i wariant o'r fath ar gyfer y flwyddyn codi tâl dan sylw.

⁹ Mae "TOP" yn golygu cyfanswm yr alldaliadau gan bob gweithredwr rhwydwaith atebol yn y flwyddyn galendr berthnasol.

¹⁰ Mae "NOS" yn golygu cyfanswm alldaliadau'r gweithredwr rhwydwaith atebol dan sylw yn y flwyddyn galendr berthnasol.

¹¹ <https://www.ofcom.org.uk/about-ofcom/corporate-policies/general-privacy-statement>

mewn ymateb i'r cais cyffredinol hwn bod eu data personol yn cael ei ddarparu i Ofcom, a rhoi dolen at Ddatganiad Preifatrwydd Cyffredinol Ofcom.

Camau gorfodi a sancsiynau posibl

Mae Erthygl 55(4) o'r Gorchymyn PRS yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr rhwydwaith atebol gydymffurfio â'r gofyniad cyffredinol hwn, sef:

"Rhaid i ddarparwr PRS sy'n darparu gwybodaeth o dan baragraff (1) ddarparu'r wybodaeth mewn ffordd ac o fewn cyfnod rhesymol fel sy'n cael ei bennu gan Ofcom."

Rydym felly'n tynnu eich sylw at y darpariaethau yn Rhan 10 y Gorchymyn PRS, sy'n nodi'r pwerau gorfodi sydd gennym mewn cysylltiad ag unrhyw fethiant i gydymffurfio â gofyniad o dan Rannau 2 i 9 o'r Gorchymyn PRS, gan gynnwys unrhyw fethiant i ymateb yn briodol i'r galw cyffredinol hwn.

Felly, mae'n ofynnol i chi sicrhau bod eich ymateb **yn brydlon, yn gyflawn ac yn gywir**. O ystyried difrifoldeb y canlyniadau posibl, efallai y byddwch eisiau gofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol ynghylch cynnwys y gofyniad cyffredinol hwn.

Yn gywir,



Atif Mogal

Person a awdurdodwyd yn unol â pharagraff 18 yr Atodlen i Ddeddf y Swyddfa Gyfathrebiadau 2002.

Amg:

Atodiad 1: Yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu dan y cais cyffredinol hwn (gwybodaeth benodedig)

Atodiad 2: Taflen Wybodaeth Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir

Atodiad 1: Yr wybodaeth y mae'n ofynnol ei darparu dan y cais cyffredinol hwn (gwybodaeth benodedig)

Rhan A: Pwrpas Atodiad 1

Mae **Atodiad 1** yn cyd-fynd â cais cyffredinol Ofcom, ac yn rhan ohono, o dan erthygl 55 o'r Gorchymyn PRS¹², ac mae'n gofyn am yr wybodaeth yn y modd a'r ffurf a nodir isod er mwyn canfod neu ddilysu'r ffoedd sy'n daladwy gan weithredwr rhwydwaith atebol o dan erthygl 14 o'r Gorchymyn PRS.

Rhan B: Diffiniadau

Yn **Atodiad 1**, ac eithrio i'r graddau y mae'r cyd-destun yn mynnu fel arall, bydd i eiriau neu ymadroddion yr ystyr a roddir iddynt at ddibenion y Gorchymyn PRS. Mae diffiniadau allweddol sy'n berthnasol i **Ran C o Atodiad 1** isod yn cael eu copïo er hwylustod yn y tabl isod.

Geiriad neu ymadrodd	Ystyr
"blwyddyn codi tâl"	Gweler erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS: (a) y cyfnod sy'n dechrau ar 1 Chwefror 2025 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2025, neu (b) unrhyw gyfnod dilynol o 12 mis sy'n dechrau ar 1 Ebrill.
"elusen"	Gweler erthygl 2 y Gorchymyn PRS: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/article/2/made
"defnyddiwr"	Gweler adran 405(5) Deddf Cyfathrebiadau 2003: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/405
"PRS rheoledig"	Gweler erthygl 3 y Gorchymyn PRS: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/article/3/made
"gwasanaeth cyfathrebu electronig"	Gweler Adran 32 o'r Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/32
"cyfryngwr"	Gweler erthygl 9(2) y Gorchymyn PRS: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/article/9/made
"gweithredwr rhwydwaith atebol"	gweithredwr rhwydwaith y mae cyfanswm ei alldaliadau mewn blwyddyn galendr berthnasol yn hafal i neu'n fwy na £10,000 heb gynnwys TAW.
"masnachwr"	Gweler erthygl 9(5) a (6) y Gorchymyn PRS: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/article/9/made
"gweithredwr rhwydwaith"	Gweler erthygl 9(7) i (9) y Gorchymyn PRS: https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/article/9/made
"darparwr cyfathrebiadau gwreiddiol"	Gweler erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS: person sy'n darparu gwasanaethau cyfathrebu electronig i ddefnyddwyr .
"alldaliadau"	Gweler erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS:

¹² <https://www.legislation.gov.uk/uksi/2024/1046/contents/made>

	cyfanswm y symiau sy'n daladwy gan weithredwr rhwydwaith atebol i gyfryngwyr a masnachwyr mewn perthynas â refeniw PRS.
"person"	yn cynnwys corff o bersonau corfforaethol neu anghorfforaethol—gweler Atodlen 1 i Ddeddf Dehongli 1978: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/1978/30/schedule/1
"Gwasanaethau cyfradd premiwm" ("PRS")	Gweler adran 120(7) Deddf Cyfathrebiadau 2003: https://www.legislation.gov.uk/ukpga/2003/21/section/405
"Refeniw PRS"	Gweler erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS: y cyfanswm net a drosglwyddir i weithredwr rhwydwaith atebol gan ddarparwr cyfathrebiadau gwreiddiol mewn perthynas â ffioedd a osodir gan y darparwr ar ddefnyddwyr ei wasanaethau cyfathrebu electronig ar gyfer darparu PRS rheoledig , ynghyd ag unrhyw gyfleusterau sydd ar gael iddynt, ac eithrio unrhyw daliadau a roddir i elusen gan y defnyddwyr hynny.
"blwyddyn galendr berthnasol"	Gweler erthygl 14(7) y Gorchymyn PRS: y cyfnod o 12 mis sy'n dechrau ar ddiwrnod cyntaf mis Ionawr yn y flwyddyn sydd dwy flynedd cyn y flwyddyn galendr y mae'r flwyddyn codi tâl dan sylw yn dechrau ynddi.

Rhan C: Yr wybodaeth benodedig

I gyfrifo swm y tâl gweinyddol sy'n daladwy gennych chi fel gweithredwr rhwydwaith atebol gan ddefnyddio'r fformiwla a nodir yn erthygl 14(2) o'r Gorchymyn PRS, ar gyfer y flwyddyn codi tâl sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben ar 31 Mawrth 2026, rhaid i chi gyflwyno Tystysgrif Flynyddol (ar y ffurf a nodir yn **Rhan E o'r Atodiad 1** isod) o **gyfanswm eich alldaliadau yn y flwyddyn galendr berthnasol** sy'n dechrau ar **1 Ionawr 2023 ac yn dod i ben 31 Rhagfyr 2023**, ynghyd â rhai manylion cyffredinol. Rydym yn esbonio isod y manylion cyffredinol sydd i'w rhoi ar y Dystysgrif Flynyddol honno.

Ar gyfer blynyddoedd codi tâl dilynol nes bydd Ofcom yn rhoi hysbysiad pellach, rhaid i chi gyflwyno gan ddefnyddio ein Porth Gwasanaethau Ar-lein (gweler **Rhan D** isod) gyfanswm eich alldaliadau yn y flwyddyn galendr berthnasol dan sylw, ynghyd â rhywfaint o wybodaeth gysylltiedig yn y modd a bennir gan Ofcom yn y Porth hwnnw.

Esboniadau am 'fanylion cyffredinol' y Dystysgrif Flynyddol yn Rhan E o'r Atodiad 1 hwn

"Enw cofrestredig"	<ul style="list-style-type: none"> Mae hyn yn cyfeirio at eich enw llawn (fel gweithredwr rhwydwaith atebol) gan gynnwys unrhyw enw masnachu. Rydym yn disgwyl y bydd yr enw hwn yn cyfateb i'ch enw fel y mae eisoes wedi'i gofrestru gydag Ofcom at ddibenion erthygl 10 o'r Gorchymyn PRS, ac eithrio pan fydd erthygl 13 o'r Gorchymyn PRS (cofrestru ar gyfer achosion trosiannol) yn berthnasol. Mewn llawer o achosion, rydym yn disgwyl y bydd yr enw hwn yn enw cwmni sydd wedi'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yn y DU.
"Rhif cofrestredig"	<ul style="list-style-type: none"> Eto, rydym yn disgwyl y bydd y rhif hwn yn cyfateb i'ch rhif cofrestredig fel y mae eisoes wedi'i gofrestru gydag Ofcom at ddibenion erthygl 10 o'r Gorchymyn PRS, ac eithrio pan

	<p>fydd erthygl 13 o'r Gorchymyn PRS (cofrestru ar gyfer achosion trosiannol) yn berthnasol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Mae hyn yn cyfeirio at eich rhif unigryw (fel gweithredwr rhwydwaith atebol) sydd wedi'i gofrestru gyda Thŷ'r Cwmnïau yn y DU neu, os ydych chi wedi cofrestru dramor, eich rhif unigryw sydd wedi'i gofrestru ar y gofrestr dramor. Yn yr achos olaf, nodwch enw'r gofrestr dramor mewn cromfachau ar ôl y rhif unigryw. Ym mhob achos arall, nodwch "amh" os nad oes rhif o'r fath ar gael.
"Blwyddyn codi tâl"	<ul style="list-style-type: none"> • Mae'r Dystysgrif Flynyddol yn Rhan E isod eisoes wedi rhoi'r flwyddyn codi tâl y mae eich tâl gweinyddol i fod i gael ei gyfrifo ar ei chyfer, sef y flwyddyn codi tâl sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac yn dod i ben ar 31 Mawrth 2026 (hy 2025/26). Fel y nodwyd uchod, ar gyfer blynyddoedd codi tâl dilynol, ni ddylid dychwelyd y Dystysgrif Flynyddol hon ond dylid darparu'r wybodaeth angenrheidiol am alldaliadau ar-lein.
"Blwyddyn galendr berthnasol"	<ul style="list-style-type: none"> • Eich alldaliadau i'w hardystio yn y Dystysgrif Flynyddol yw'r rheini ar gyfer y flwyddyn sy'n dechrau ar 1 Ionawr 2023 ac sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr 2023.

Yn yr adran sy'n dwyn y teitl '**Cyfanswm yr alldaliadau yn y flwyddyn galendr berthnasol**' ar y Dystysgrif Flynyddol yn **Rhan E o Atodiad 1** isod, rhaid i chi gynnwys cyfanswm yr alldaliadau dyledus (wedi'u talgrynnu i'r bunt agosaf) yn y cyfnod 12 mis llawn sy'n cynnwys y flwyddyn galendr berthnasol, fel ei bod yn cynrychioli deuddeg mis o ddata.

Yn yr adran sy'n dwyn y teitl '**Egluro sut mae cyfrifo alldaliadau**' ar y Dystysgrif Flynyddol yn **Rhan E o'r Atodiad 1** isod, **gallwch** roi manylion am sut mae cyfanswm y ffigur alldaliadau a ddarparwyd wedi cael ei gyfrifo.

Rhan D: Ffordd o ddarparu'r wybodaeth benodedig

Rhaid i'r wybodaeth a bennir yn **Rhan C o Atodiad 1** uchod gael ei darparu yn y modd a bennir yn y **Rhan D** isod.

Blwyddyn codi tâl 2025/2026 ar gyfer alldaliadau ym mlwyddyn galendr 2023

Ar gyfer y flwyddyn codi tâl sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2025 ac sy'n dod i ben 31 Mawrth 2026 rhaid cyflwyno'r **alldaliadau** yn y flwyddyn galendr berthnasol sy'n dechrau ar **1 Ionawr 2023 ac yn dod i ben 31 Rhagfyr 2023 i Ofcom:**

1. gan ddefnyddio'r Dystysgrif Flynyddol yn **Rhan E o Atodiad 1** isod ar ffurf taenlen gan ddefnyddio Microsoft Excel (ar ffurf .xlsx);
2. drwy e-bostio'r Dystysgrif Flynyddol honno yn y fformat hwnnw i information.registry.ofcom.org.uk, gan anfon copi at MID@ofcom.org.uk neu drwy ein system ddiogel ar gyfer Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir (MFT)¹³

¹³ Os nad oes gennych gyfrif MFT, neu os yw eich cyfrif wedi cael ei atal, a'ch bod yn dymuno defnyddio'r system MFT, anfonwch e-bost at information.registry@ofcom.org.uk o leiaf dri diwrnod gwaith cyn y dyddiad

3. **erbyn** y dyddiad cau, sef **5pm 17 Mawrth 2025**.

cau, gan roi enw a chyfeiriad e-bost eich cyswllt enwebedig a fydd yn llwytho'r data i fyny, er mwyn i ni allu sefydlu cyfrif. Mae taflen wybodaeth am y gwasanaeth MFT wedi'i hatodi yn **Atodiad 2** y gofyniad cyffredinol hwn.

Blwyddyn codi tâl 2026/2027 ar gyfer alldaliadau ym flwyddyn galendr 2024

Ar gyfer y flwyddyn codi tâl sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2026 ac sy'n dod i ben 31 Mawrth 2027 rhaid cyflwyno'r **alldaliadau** yn y flwyddyn galendr berthnasol sy'n dechrau ar **1 Ionawr 2024 ac yn dod i ben 31 Rhagfyr 2024 i Ofcom:**

1. gan ddefnyddio Porth Gwasanaethau Ar-lein Ofcom,¹⁴ sydd ar gael yn <https://ofcom.force.com/licensingcomlogin>
2. **erbyn** y dyddiad cau, sef **5pm 28 Tachwedd 2025.**

Blynyddoedd codi tâl dilynol ar gyfer alldaliadau mewn blynyddoedd calendr dilynol

Ar gyfer y blynyddoedd codi tâl dilynol nes bydd Ofcom yn rhoi hysbysiad pellach, rhaid cyflwyno'r alldaliadau yn y flwyddyn galendr berthnasol dan sylw i Ofcom:

1. gan ddefnyddio Porth Gwasanaethau Ar-lein Ofcom,¹⁵ sydd ar gael yn <https://ofcom.force.com/licensingcomlogin>
2. **erbyn** y dyddiad cau o **5pm fan bellaf ar ddiwrnod gwaith olaf¹⁶ mis Gorffennaf y flwyddyn sy'n dilyn y flwyddyn galendr berthnasol dan sylw.** Er enghraifft, ar gyfer y flwyddyn codi tâl sy'n dechrau ar 1 Ebrill 2027 ac sy'n dod i ben 31 Mawrth 2028 rhaid cyflwyno'r **alldaliadau** yn y flwyddyn galendr berthnasol sy'n dechrau ar **1 Ionawr 2025 ac yn dod i ben 31 Rhagfyr 2025** i Ofcom erbyn **5pm 31 Gorffennaf 2026.**

¹⁴ Os nad oes gennych chi'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair sydd eu hangen i gael mynediad at borth Gwasanaethau Ar-lein Ofcom, anfonwch e-bost at dîm Gwybodaeth am y Farchnad Ofcom (MID@ofcom.org.uk) o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad cau.

¹⁵ Os nad oes gennych chi'r enw defnyddiwr a'r cyfrinair sydd eu hangen i gael mynediad at borth Gwasanaethau Ar-lein Ofcom, anfonwch e-bost at dîm Gwybodaeth am y Farchnad Ofcom (MID@ofcom.org.uk) o leiaf ddau ddiwrnod gwaith cyn y dyddiad cau.

¹⁶ At y diben hwn, ystyr "diwrnod gwaith" yw unrhyw ddiwrnod heblaw— (a) dydd Sadwrn neu ddydd Sul, neu (b) diwrnod sy'n wyl banc o dan Ddeddf Bancio a Thrafodion Ariannol 1971 mewn unrhyw ran o'r Deyrnas Unedig.

Rhan E: Ffurflen i ddarparu'r wybodaeth benodedig mewn perthynas â blwyddyn codi tâl 2025/2026 ar gyfer alldaliadau ym mlwyddyn galendr 2023 (Tystysgrif Flynyddol)

Rhaid i'r wybodaeth a nodir yn **Rhan C o Atodiad 1** mewn perthynas â blwyddyn codi tâl 2025/2026 ar gyfer alldaliadau ym mlwyddyn galendr 2023 gael ei darparu i Ofcom ar ffurf Tystysgrif Flynyddol fel y nodir isod.

Tystysgrif Flynyddol gan Weithredwr Rhwydwaith Atebol i Ofcom at y diben o ganfod neu ddilysu taliadau gweinyddol sy'n daladwy o dan erthygl 14 o'r Gorchymyn PRS	
Enw cofrestredig:	
Rhif cofrestredig:	
Blwyddyn codi tâl:	1 Ebrill 2025 i 31 Mawrth 2026 (2025/26)
Blwyddyn galendr berthnasol:	2023
Cyfanswm yr alldaliadau yn y flwyddyn galendr berthnasol (GBP):	
Egluro sut mae cyfrifo alldaliadau:	
Ardystiad	
Ar ran y cwmni a enwir ar y Dystysgrif Flynyddol hon, yr wyf yn tystio bod yr wybodaeth a roddir yn y Dystysgrif Flynyddol hon yn wir, yn gywir ac yn gyflawn. Rwyf hefyd yn cadarnhau yn rhinwedd hynny bod y Safonau Adrodd Ariannol a'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y DU wedi cael eu dilyn wrth barato'r Dystysgrif Flynyddol hon.	
Llofnod: (Nodwch.eich.enw.mewn.priflythrennau)	
Enw:	
Teitl swydd:	
Dyddiad:	
Manylion cyswllt yr ardystiwr:	
Cyfeiriad e-bost:	
Cyfeiriad post:	
Ffôn:	
Y sawl sy'n cyflwyno'r Dystysgrif Flynyddol hon (os yw'n wahanol i'r llofnodwr uchod sy'n ardystio'r Dystysgrif Flynyddol hon):	
Enw:	
Teitl swydd:	
Cyfeiriad e-bost:	
Cyfeiriad post:	
Ffôn:	

Atodiad 2: Taflen Wybodaeth Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir

Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir

Mae Trosglwyddo Ffeiliau a Reolir (MFT) yn caniatáu i Ofcom rannu ffeiliau â sefydliadau allanol yn ddiogel. Mae'n darparu trywydd archwilio llawn o weithgarwch. Mae dau dull o anfon a derbyn ffeiliau – ffolderi a rennir a Phecynnau. Bydd eich cyswllt yn Ofcom yn trefnu'r un mwyaf priodol at eich dibenion chi.



Pecynnau

Ar gyfer trosglwyddo ffeiliau unwaith ac am byth neu ddefnydd achlysurol, mae MFT yn darparu cyfleuster Pecyn diogel sy'n gweithio mewn ffordd debyg i negeseuon e-bost.

Does dim angen cyfrif arnoch chi ar MFT i gael mynediad at Becyn. Pan fydd rhywun o Ofcom yn anfon pecyn atoch, byddwch yn cael hysbysiad e-bost gan MFT gyda dolen i'r Pecyn.

Bydd eich cyswllt yn Ofcom yn rhoi cyfrinair i chi gael mynediad at y pecyn. Gallwch wedyn lawrlwytho unrhyw ffeiliau sydd wedi'u hatodi.

I anfon data gan ddefnyddio'r dull hwn, rhaid i rywun yn Ofcom anfon pecyn atoch chi yn gyntaf. Gallwch wedyn ateb - gan atodi unrhyw ffeiliau rydych chi am eu rhannu â'ch cyswllt yn Ofcom.

Ffeiliau a Rennir

Ar gyfer defnyddwyr sydd angen trosglwyddo ffeiliau i Ofcom, ac o Ofcom, yn rheolaidd, mae MFT yn darparu cyfleuster ffolder trosglwyddo diogel. Bydd eich cyswllt yn Ofcom yn gofyn am gyfrif MFT ar eich cyfer. Gofynnir iddynt roi eich enw, eich cyfeiriad e-bost ac enw'r cwmni.

Bydd enw defnyddiwr unigryw yn cael ei greu ar eich cyfer.

Ar ôl creu eich cyfrif, bydd eich cyswllt yn Ofcom yn rhoi gwybod i chi am eich cyfrinair dros dro ar wahân. Bydd gofyn i chi newid hyn pan fyddwch chi'n mewngofnodi i MFT am y tro cyntaf.

Ar ôl mewngofnodi, byddwch yn gallu mynd i'r ffolder a rennir i lanlwytho neu lawrlwytho ffeiliau fel y cytunwyd gyda'ch cyswllt yn Ofcom.

Taflen Ffeithiau Diogelwch

- Yn ystod y broses drafnidiaeth, mae MFT yn defnyddio TLS i amgryptio cyfathrebu. Cryfder lleiaf yr amgryptio a ddefnyddir wrth gludo ar y we yw 128-bit ac mae'r system yn cael prawf treiddiad rheolaidd.
- Mae MFT yn storio pob ffeil ar ddisg gan ddefnyddio FIPS 140-2 AES 256-bit dilys. Mae gan bob ffeil allwedd amgryptio unigryw, sydd hefyd wedi'i hamgryptio.
- Mae MFT yn cofnodi pob digwyddiad mewngofnodi ac allgofnodi, newidiadau i hawliau, ychwanegiadau defnyddiwr newydd a gweithredoedd eraill sy'n effeithio'n uniongyrchol ar ddiogelwch y system. Mae pob cofnod log yn cael ei gadwyno mewn cryptograffeg gyda'i gilydd mewn ffordd sy'n golygu bod unrhyw ymyrryd â chofnodion archwilio yn amlwg.
- Mae MFT yn defnyddio dulliau cryptograffeg i wirio nad oes neb wedi ymyrryd â ffeiliau.
- Cofiwch mai adnodd ar gyfer trosglwyddo ffeiliau yn unig yw MFT. Er mwyn atal cwmpo data, bydd ffeiliau'n cael eu dileu'n awtomatig ar ôl cyfnod penodol.
- Dim ond ffeiliau sydd wedi'u hamgryptio ar ffurf ffeiliau zip (.7z neu .zip) y dylid eu llwytho i fyny i MFT.